

FFEDERASIWN CLYBIAU FFERMWYR IFAC CYMRU



**PWYLLGOR RHYNGWLADOL
DYDD MAWRTH, 19ain MAWRTH, 2022
ZOOM 8.00YH**

COFNODION

CADEIRYDD: Miss Nerys Lewis

IS-GADEIRYDD: Miss Caitlin Harley

PRESENNOL: Nerys Lewis (Cadeirydd - NL), Leah Bevan (Morgannwg - LB), Iestyn Owen (Sir Gâr- IO), Sian Emberton (Maldwyn - SE), Lwsi Morgan (Maldwyn), Niall Evans (Cyn gadeirydd - NE) and Andrew Spencer (YFA - AS)

HEFYD YN BRESENNOL:

Rhianwen Jones (Rhyngwladol a Chystadlaethau - RJ), Caryl Haf (Cadeirydd CFFI Cymru - CH)

I/32/2022 CROESO A CHYFLWYIADAU'R CADEIRYDD

Agorodd Nerys y cyfarfod a chroesawodd y pwyllgor.

I/33/2022 YMDDIHEIRIADAU AM ABSENOLDEB

Cerys Baker (Gwent), Cathrin Jones (Sir Gâr)

I/34/2022 I GADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gafodd ei gynnal ar Ddydd Llun, 25ain Hydref 2021, eu dangos ar y sgrin. Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo a'u gwirio fel record cywir.

Cynigydd: Lwsi Morgan

Eilydd: Andy Spencer

I/35/2022 PWYNTIAU GWEITHREDU A MATERION YN CODI O'R COFNODION

GWEITHRED	SYLWADAU
Pwynt Gweithredu 1: CFFI Cymru i gysylltu â Contiki i gyfrifo'r blaendal angenrheidiol ar gyfer y Saffari ac anfonebu'r teithwyr dewisol.	Wedi ei gwblhau – Mae pawb bellach wedi talu'r blaendal o £120 ar gyfer y Saffari.

Pwynt Gweithredu 2: CFFI Cymru i anfonebu teithwyr penodol am ffi weinyddol o £40.	Wedi ei gwblhau – Mwyafrif bellach wedi talu'r ffi weinyddol.
Pwynt Gweithredu 3: Cyfweid y 6 ymgeisydd, cysylltu ag ymgeiswyr cynt er mwyn llewni'r lleoedd gwag.	Wedi ei gwblhau – Diwrnod Dewis wedi eu cynnal.
Pwynt Gweithredu 4: Protocolau Cofid i'w creu.	Wedi ei gwblhau – wedi ei gylchreddeg.

Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cofnodion.

I/36/2022 GOHEBIAETH

Alan Lambert o'r UDA wedi anfon llythyr gyda phryderon am y rhyfel yn Iwcrain.

Nododd Madam Gadeirydd fod rheoau Cofid yn dechrau llacio. Rydym i fod i groesawu 2 gynrychiolydd o Ulster a 2 gynrychiolydd o America.

Cododd AS y pwynt na ddylai rhyfel Iwcrain effeithio ar deitihio mewn i DU ond mae problemau mwyaf oedd COFID, nid oedd yn gweld unrhyw drafferthion o ran yr hyn y cytunwyd arno eisoes.

Soniodd NE nad oedd yn gweld unrhyw cyfyngiadau mawr yn dod i'r amlwg heblaw bod rhywbeth difrifol yn codi. Os fyddwn yn dechrau edrych ar y problemau 'beth os' ni fyddwn yn ail ddechrau eto.

Ddylai cael eu nodi yn glir er nad oes cyfyngiadau cyfredol, dylai cynrychiolwyr sydd yn dod fod yn ymwybodol gall fod cyfyngiadau bach fod mewn lle. Dylai'r pwynt hwn cael eu trosgwlyddo..

Pwynt Gweithredu 1: Rhiawnwen i gysylltu gydag Alan a throsglwyddo pwyntiau'r pwyllgor.

I/37/2022 ADOLYGU DIWRNOD DEWIS 2022

Diolchodd Madam Gadeirydd i'r beirniaid am rhoi o'u hamser a helpu ar y diwrnod yn ogystal â i Rhianwen am drefnu.

Does dim adborth wedi'u derbyn o ran trefn y diwrnod, ond mae wedi'u nodi fod safon uchel o geisiadau.

Gwnaeth 6 ymgeisio a phob un wedi derbyn lleoliad i deithio.

I/38/2022 DERBYN DIWEDDARIAD AR RHAGLEN RHYNGWLADOL 2022

1. Cynrychiolwyr sy'n teithio

Mae mwyafrif o'r teithiau wedi'u cadarnhau, gyda'r dyddiadau wedi'u darparu i'r cynrychiolwyr a blaendal wedi'u derbyn. Dal i ddisgwyl am ohebiaeth o Ganada ynglyn a thaith eleni a'r 'homestay' yn y Ffinidir wedi symud i 2023.

Taith Agri i'w drefnu gan Swyddog Materion Gwledig gyda chymorth Rhianwen.
Doedd gan y Pwyllgor ddim cwestiynau na sylwadau pellach.

2. Cynrychiolwyr sy'n ymweld

4 cynrychiolydd yn ymweld yn 2022. Rydym eisoes wedi trafod y rhai sydd yn ymweld o America.

2 cynrychiolydd yn ymweld o Ulster. Bydd rhain yn dod wythnos cyn y Sioe Frenhnol, ac yn gadael penwythnos wedi'r Sioe.

Cododd y Cadeirydd y pwynt fod niferoedd o'r cynrychiolwyr yn llai na'r arfer, a cwestiynu a fyddai'n deg eu hanfon i'r Pentef Ieuenctid gyda grwp mor fach. Beth yw barn y Pwyllgor am westeio eleni?

Nododd NE fod 4 yn Pentref Ieuenctid yn 2019. Byddai'n dibynnu ar y grwp a'u personoliaethau. Sefyllfa anodd iawn ac mae'n anodd canfod pobl i westeio dros wythnos y sioe.

Mae'n dibynnu pan fydd pobl yn dod a phwy maent yn adnabod.

RJ yn nodi ei fod yn sefyllfa ychydig yn rhyfedd i anfon y cynrychiolwyr i'r Pentref Ieuenctid yn eu ffurf presennol, byddai opsiwn mwy addas fel B&B?

Ydi'r bosib rhoi'r opswin i'r cynrychiolwyr lle i aros dros yr wythnos?

Wedi'i nodi mae dyma'r flwyddyn i drio rhywbeth gwahanol os ydym am edrych arno.

Holodd AS am y dyddiadau am ymweliadau'r cynrychiolwyr sydd yn dod, gan fyddai'n gwneud synnwyr iddyn nhw ddod yr wythnos cynt, i gyfarfod pobol cyn y sioe.

Teimla'r pwyllgor yn gryf ddylai'r cynrychiolwyr gyrraedd y sioe oleauf gan ei fod yn cael ei ystyried fel y sioe orau yn y byd.

Ydi'n opsiwn i fuddsoddi mewn carafan yn hytrach na tent?

Mae'r holl syniadau yn opsiwn, ond mae angen ystyried lle byddem yn storio'r eitemau hyn.

Angen trafod gyda'r cynrychiolwyr Americanaidd ynglyn a gwesteio dros wythnos y sioe. Pwyllgor yn teimlo gall wythnos y sioe cael eu gweld fel wythnos eu hunain a'r gwesteio i ddychwelyd wythnos wedyn. Mae angen pwysleisio hyn i'r cynrychiolwyr.

Pwynt Gweithredu 2: Rhianwen i edrych ar opsiynau aros i'r cynrychiolwyr dros wythnos y sioe.

I/39/2022 EITEMAU AGENDA A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I'w gynnal yn Llanelwedd gyda is-bwyllgorau arall ar fore cyfarfod Cyngor CFFI Cymru. Eitemau agenda i gynnwys:

1. Edrych ar deithiau arall ar gyfer 2023
2. Ymchwilio i'r taith sgio yn Gwanwyn 2023

I/40/2022 UNRHYW FUSNES ARALL

Diolchodd Madam Gadeirydd i'r YFA am eu cyfraniad ac ymddiheiriodd nad oedd wedi mynychu'r cyfarfod olaf.

Darparodd AS ddiweddariad ar y cyfarfod. Cynllunio ar gyfer aduniad YFA yn Hydref, manylion i ddod dros yr Haf. Erych ar benwythnos 22ain/23ain Hydref. Edrych i gefnogi ffermwyr ifanc a teithwyr rhyngwladol hyd eithaf eu gallu, os oes rhywbeth gallan nhw helpu gyda, gadewch iddyn nhw wybod.

Gall holl aelodau'r pwyllgor fynd a'r wybodaeth am westeio nol at eu iroedd a meddwl pwy gallai westeio.

Nid oedd unrhyw fusnes arall felly cafodd y cyfarfod ei ddatgan ar gau am 20.35.